



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru o Gymunedau Cydlynys

- 1: Pobl yn weithgar yn eu cymunedau:** Creu'r amodau lle gall pobl a chymunedau wneud y pethau sy'n bwysig iddynt hwy
- 2: Cymunedau cysylltiedig:** Cynorthwyo cymunedau i greu cysylltiadau da a bod yn ddiogel
- 3. Mynediad i wasanaethau llesiant allweddol:** Cynorthwyo economïau sylfaenol bywiog
- 4: Sefydliadau angori cymunedau:** Gwerthfawrogi'r rôl a photensial y gall sefydliadau angori cymunedau ei chwarae wrth adeiladu cymunedau cydlynus





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru o Gymunedau Cydlynys

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,
diffinnir y rôl hon fel:

*“Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â
chysylltiadau da.”*



Diffinio'r nod

Ysgrifennodd yr awdur Americanaidd Meg Wheatley: “Nid oes unrhyw bŵer a fedr greu mwy o newid na chymuned yn darganfod yr hyn sy'n bwysig iddi.” Er gwaethaf hynny, cred llai na 25% o bobl ledled Cymru y gallant effeithio ar benderfyniadau a wneir yn lleol.

Pan fydd cymunedau'n gydlynus, mae ganddynt gysylltiadau da (yn cynnwys rhai digidol); gallant addasu i newid, ac maent yn ffocysu ar lesiant y bobl sy'n byw yno gyda mynediad da i wasanaethau llesiant allweddol megis addysg, iechyd, tai, manwerthu a thrafnidiaeth. A gall pobl wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae cymunedau cydlynus cysylltiedig yn rhan bwysig o lesiant pobl fel unigolion. Adnabu Sefydliad Iechyd y Byd bod diffyg gweithredu, ymddiriedaeth, a theimlad o berthyn, a chymdogaethau ansicr yn egluro 19% o'r bwlch mewn iechyd gwael rhwng yr incwm cyfartalog uchaf a'r isaf ar gyfer dynion a menywod yn Ewrop. Elfen allweddol yw presenoldeb sefydliadau cryf, lleol – a elwir yn aml yn 'sefydliadau angori cymunedau' – megis ymddiriedolaethau datblygu, mentrau cymdeithasol, cymdeithasau tai a chynghorau tref/cymuned. Maen nhw'n bwysig

oherwydd eu bod yn deall cymunedau lleol ac am fod ganddynt ymrwymiad hirdymor i'r ardal a wasanaethir ganddynt.

Mae cymunedau cydlynus hefyd yn gosod llesiant wrth wraidd datblygiad economaidd lleol. Mae'r Economi Sylfaenol yn ymwneud â gwasanaethau cyffredinol sylfaenol sy'n cynorthwyo bywyd bob dydd, megis iechyd, gofal a manwerthu. Gan fod bron i hanner holl gyflogaeth lleol yn ymwneud â'r gwasanaethau hyn, a'u bod yn gymharol sefydlog ac yn medru ymdopi â sioc economaidd, gall cyrff cyhoeddus eu gwerthfawrogi a'u cryfhau drwy agor gofod ar gyfer sgysiau i facsimeiddio eu potensial, gan greu amodau i'w helpu i wneud cyfraniad mwy.



Astudiaethau achos

Drwy'r holl ddogfen hon byddwch yn dod o hyd i nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i wrthrych y pwnc. Os gwelwch yn dda darllenwch y ddolen os byddwch yn gweld y symbol hwn.



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Creu cymunedau hyfyw lle gall pobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt hwy

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus - pwnc taith 1: Pobl yn weithgar yn eu cymunedau\)](#)

Cynorthwyo cymunedau i greu cysylltiadau da

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus – pwnc taith 2: Cymunedau cysylltiedig\)](#)

Cynorthwyo mynediad i wasanaethau llesiant allweddol mewn cymunedau

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus – pwnc taith 3: Mynediad i wasanaethau llesiant\)](#)

Gwerthfawrogi rôl sefydliadau allweddol wrth adeiladu cymunedau cydlynus

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus – pwnc taith 4: Sefydliadau angori cymunedau\)](#)

Deall rôl tai mewn cymunedau cydlynus

[\(Pwnc taith i gael ei archwilio ymhellach yn y cyfnod nesaf\)](#)

Creu cymunedau lle gall pobl deimlo'n ddiogel

[\(Pwnc taith i gael ei archwilio ymhellach yn y cyfnod nesaf\)](#)

Galluogi cymunedau i gysylltu'n ddigidol

[\(Pwnc taith i gael ei archwilio ymhellach yn y cyfnod nesaf\)](#)

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Mae'r **Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fapio a gwella'n barhaol lwybrau a chyfleusterau ar gyfer "teithio llesol" – a ddiffinnir fel cerdded neu feicio at ddiben penodol, megis mynd i'r gwaith neu gyrchu gwasanaethau, yn hytrach nag fel weithgaredd oriau hamdden.

Mae **Polisi Cynllunio Cymru** yn arwyddocaol yn y dasg o'n symud ni tuag at garbon isel, cymdeithas gydnerth, adeiladu amgylcheddau â chysylltiadau da i bawb yng Nghymru sy'n gwella ein bywydau, iechyd a llesiant. Mae'n cyflwyno'r cysyniad o lunio lle, ymagwedd holistig tuag at gynllunio a dylunio datblygu a mannau agored, sy'n ffocysu ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n manteisio ar botensial ardal i greu datblygu o ansawdd da a mannau agored sy'n hybu ffyniant, iechyd a llesiant pobl.

Mae Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014) yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hybu llesiant y rhai sydd ag angen gofal a chymorth, neu ofalwyr sydd ag angen cymorth. Egwyddorion y Ddeddf yw: cynorthwyo pobl ag anghenion gofal a chymorth i ennill llesiant; gwneud pobl yn ganolog i'r system newydd drwy roi iddynt lais cyfartal yn y gofal a dderbyniant; mae partneriaeth a chydweithredu'n sbarduno cyflawni gwasanaeth; a gwasanaethau'n helpu i leihau angen a sicrhau fod y gofal cywir ar gael ar yr amser cywir.



Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'.

Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn fwy **tebygol o ddigwydd pan fydd...**


- Cyrff cyhoeddus yn creu'r amodau gorau ar gyfer helpu cymunedau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy.
- Cyrff cyhoeddus yn sefydlu'r sgysiau am yr 'hyn sy'n bwysig' i bobl fel rhan hanfodol o'r modd y maent yn gweithio ([gweler y Daith tuag at Ymgyfraniad](#)).
- Cronfeydd allweddol a chyllidebau lleol yn cael eu defnyddio'n greadigol.
- Sefydliadau angori cymunedau a fedr roi llais i bobl leol, yn cael eu cynorthwyo i ddal asedau ac adeiladu cydnerthedd.
- Cymorth ar gael i arweinyddion cymunedol, actifyddion, entrepreneuriaid a gwirfoddolwyr.



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn llai **tebygol o ddigwydd pan fydd...**

- Cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn seilos heb fabwysiadu ymagweddau 'seiliedig-ar-le' tuag at yr hyn sy'n bwysig i bobl.
- Cyrff cyhoeddus yn gweld cymunedau fel rhai diffygiol, gan ffocysu ar wendidau ymddangosiadol ac anwybyddu cryfderau.
- Cyfleoedd cyllido'n fyr eu tymor a thameidiog.
- Agweddau tuag at gymunedau'n perchnogi asedau'n cael eu cyfyngu gan farn mai cyrff cyhoeddus yw'r 'lle naturiol' ar gyfer cadw asedau, a pherchnogaeth gan y gymuned yn dod yn bosibl yn unig pan na fydd cyrff cyhoeddus yn medru eu fforddio.
- Cyrff cyhoeddus yn siarad am ymgyfrannu a chyd-gynhyrchu ond heb fuddsoddi ar gyfer gwneud hyn yn iawn.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru o Gymunedau Cydlynus

2: Cymunedau cysylltiedig

Cynorthwyo cymunedau i gael cysylltiadau
da a bod yn ddiogel

Diffinio'r mater

Mae dros 80% o deithiau ar hyn o bryd yn cael eu gwneud mewn ceir – mae hyn yn niweidiol i'n hiechyd, yn achosi llygredd aer ac yn medru cyfrannu tuag at ddamweiniau ac arwahanrwydd cymdeithasol a gall leihau cynhyrchiant gweithwyr.

Mae trafndiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth gymunedol yn cynyddu rhyngweithio rhwng cymunedau, tra'n gwarchod a gwella manau gwyrdd. Mae i deithio llesol ystod o fanteision ar gyfer llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, yn arbennig i blant a phobl ifanc.

Rhestrodd Sustrans fanteision [teithio llesol i bobl ifanc](#) a oedd yn cynnwys canolbwyntio'n well, hwyliau mwy positif, gan annog twf a datblygiad iach a lleihad mewn gofid a stres.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru iachach
Pwnc 2: Gweithgaredd corfforol

Gwneud **Newidiadau** Syml

Hyrwyddwch [deithio llesol](#) drwy eich holl sefydliad.

E.e. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**
[Cynllun beicio i'r gwaith.](#)

Cyhoeddwch [fapiau teithio llesol i deithio i ysbytai.](#)

Cynorthwywch ddewis amrywiol o lwybrau beicio i'r cyhoedd sy'n [osgoi/amlygu ardaloedd llygredig.](#)

E.e. **Caerdydd a'r Fro –Symud Ymlaen –Teithio lach i bawb yng Nghaerdydd a'r Fro.**

Cynorthwywch [rannu ceir a chlybiau ceir.](#)

Ehangwch ddarpariaeth manau gwefru [cerbydau trydan](#) ar eich eiddo, manau gwaith, datblygiadau masnachol ac ardaloedd preswyl.

E.g. **Cyngor Sir Fynwy.**

Cynorthwywch gynlluniau [trafnidiaeth gymunedol](#), yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, yn cynnwys [cynlluniau rhannu ceir a arweinir gan wirfoddolwyr.](#)

Ymunwch â [Her Feicio'r Gweithle](#) i annog a hybu teithio llesol i'w staff.

Anogwch weithgaredd corfforol yn ystod y diwrnod gwaith drwy ddarparu loceri a chyfleusterau eraill i staff.

Dysgwch o fasgedaid o astudiaethau achos sy'n annog [cerdded i'r ysgol](#) yn ddyddiol, i'r [gwaith](#) ac mewn [cymunedau.](#)

Bod Yn Fwy Anturus

Darparwch fannau gwefru cerbydau trydan ar draws eich ystâd, a rhowch gyhoeddusrwydd iddynt ymhlith staff a'r cyhoedd.

E.e. [Strategaeth Cerbydau Trydan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#).

Newidiwch o betrol/diesel i gerbydau fflyd trydan.

E.e. Mae **Cyngor Sir Fynwy** yn treialu 20 o geir celloedd tanwydd hydrogen, gan weithio gyda [RiverSimple](#).

Byddwch yn rhan o'r diwrnod di-gar blyneddol mewn dinasoedd a threfi – i annog cerddwyr, beicwyr a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a gweithgareddau cymunedol.

E.e. Diwrnod Di-gar [Caerdydd](#) a [Pharis](#).

Archwiliwch y dyletswyddau cyfreithiol perthnasol er mwyn cynnal prosiect pilot strydoedd di-gar a [chwarae ar y stryd i blant a phobl ifanc](#).

Ymgwymerwch â dadansoddiad i ddeall a oes bwch rhwng y rhywiau mewn teithio llesol a gweithiwch gyda chymunedau a grwpiau perthnasol i fynd i'r afael â'r rhesymau dros hyn. Gwnaeth y prosiect Beicio Sustrans a ariannwyd gan Lywodraeth yr Alban [gynyddu beicio ymhlith merched o fwy na 5%](#).

Negodwch [gynlluniau aelodaeth gorfforaethol gyda chwmnïau trafnidiaeth](#), am ddisgownt i weithwyr sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus, ac ymrowch i gyflwyno hyn i sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat.

Sefydlwch gynlluniau [aberthu cyflog beicio i'r gwaith](#) a pholisiau costau beicio, fel bod staff yn cael eu hannog i gymudo drwy ddefnyddio teithio llesol.

E.e. [Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin](#).

Sicrhewch fod cronfa feiciau ar gael i'w defnyddio gan weithwyr i gymudo i gyfarfodydd.

Cynorthwywch [fentrau cymdeithasol](#) sy'n hybu [beicio](#) a theithio llesol.

Dysgwch oddi wrth [waith Cyngor Sir Casnewydd a Sustrans](#) gydag **Ysgol Gynradd Dewi Sant G R** i wella teithio llesol drwy ddylunio cymunedol.

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu cenedlaethol a chydweithredol

Crëwch weledigaeth a chynllun hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth sy'n maxsimeiddio manteision i'n heconomi a'n cymdeithas, yn ogystal â'n hamgylchedd a'n diwylliant. Dyblodd Llywodraeth yr Alban eu buddsoddiad i £80miliwn yn 2018-19 [ar gyfer teithio llesol](#).

E.e. Bydded i chi gael eich ysbrydoli gan ['Transport 2030 Vision'](#) **Cyngor Dinas Caeredin**.

Gweithiwch gyda gweithredwyr i gaffael [trafnidiaeth gyhoeddus heb allyriadau](#) a chynorthwywch cerbydau trydan a hybrid.

Gweithiwch drwy fentrau datblygu cynllunio a'r economi i feithrin datblygu effaith isel sy'n lleihau'r angen [i deithio mewn car preifat](#).

Buddsoddwch mewn seilwaith feicio i ddatblygu rhwydwaith feicio hollgynhwysfawr, flaengar.

E.e. Yn [Bogota](#) yn Colombia, llwyddodd cyngor y ddinas i negodi [trefn gyhoeddus](#) oedd yn ffafrio teithio llesol, yn cynnwys cannoedd o filltiroedd o lwybrau beicio, yn hytrach na defnyddio car.

Crëwch gymdogaethau lle gellir cerdded a beicio drwy derfynau [cyflymder o 20 millir yr awr, llunio lleoedd](#), dylunio ac ail-ddylunio strydoedd i annog cerdded a beicio.

Gweithredu sefydliadol

Datblygwch [Siarter Teithio Iach](#) i staff, ac wedyn cyflwynwch ef i sefydliadau eraill.

E.e. [Cynllun Teithio Llesol Iach Caerdydd](#).

Gwnewch gynlluniau Hurio Beiciau, megis cynllun [Nextbike Caerdydd](#), yn brif ddull o deithio o fewn cymunedau.

ee

ee

ee

Perchnogi'r Uchelgais

Cynorthwywch seilwaith seiclo.

E.e. Yn ogystal â rhwydwaith feicio hollgynhwysfawr, mae dinas [Utrecht](#) yn yr Iseldiroedd yn darparu'r seilwaith ymarferol i helpu i wireddu 43% o holl deithiau i gael eu gwneud ar feic. Mae hyn yn cynnwys adeiladu maes parcio mwyaf byd i feicwyr gyda lle i 12,500 o feiciau, rampiau dan do a systemau digidol i gyfeirio beicwyr at fannau rhydd.

Darparwch gyfleoedd i gysylltu llwybrau beicio â natur.

E.e. Y Llwybr Taf yn ne Cymru a [Limburg](#) yng Ngwlad Belg, lle gall beicwyr feicio drwy ddŵr ar lwybr sydd wedi ei ddylunio'n arbennig i dorri drwy byllau dŵr mewn gwarchodfa natur.

Enghreifftiau ac adnoddau eraill



Arddangosfa nodedig yw'r 'Bicycle Architecture Biennale (BAB)' o'r dyluniadau proffil uchel, diweddaraf sy'n hwyluso teithio ar feic ac sy'n trawsnewid cymunedau o gwmpas y byd:
<https://bycs.org/bab/>